Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Rhaglen y Dyfodol

## Manyleb y Rhaglen

Mae’r fersiwn hon o’r fanyleb yn ddilys nes hysbysir y sector AB fel arall.

Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ....................................................................................................3
2. Diben y Rhaglen ..............................................................................................3
3. Trosolwg o Ddarparu........................................................................................3
4. Cymhwystra a Gofynion Mynediad ar gyfer Dysgwyr ..........................................4
5. Cynnwys y Rhaglen ..........................................................................................4

Lleoliadau Gwaith................................................................................................4

6. Gofynion Cyflwyno Data....................................................................................5

Cod y Rhaglen ....................................................................................................5

Gwybodaeth Cyllid ..............................................................................................5

7. Monitro ac Archwilio ........................................................................................5

Dull Monitro........................................................................................................5

Cydymffurfio â Manyleb y Rhaglen........................................................................6

Deilliannau Dysgu ...............................................................................................6

Profion Archwilio..................................................................................................6

8. Manylion Cyswllt ..............................................................................................6
9. Atodiadau..........................................................................................................7

A. Cofnodi'r Profiad Gwaith ..................................................................................7

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Fanyleb Rhaglen hon yn nodi'r gofynion ar gyfer darparu Rhaglen y Dyfodol. Mae'n darparu trosolwg o ofynion y rhaglen, gan gynnwys cymhwystra ac amodau mynediad ar gyfer dysgwyr; ac yn manylu ar y gofynion cyflwyno data i alluogi Medr i fonitro'r modd y darperir y rhaglen a'r deilliannau dysgu ar gyfer Rhaglen y Dyfodol.

Mae'r Fanyleb hon hefyd yn rhan o'r Cytundeb rhwng Sefydliadau a Gweinidogion Cymru ar gyfer darparu a chyllido Rhaglen y Dyfodol. Rhaid i chi sicrhau bod eich darpariaeth o ran Rhaglen y Dyfodol yn ymlynu wrth y Fanyleb Rhaglen hon.

Mae un rhaglen astudio ar gael ar hyn o bryd, ar Lefel 1.

## 2. Diben y Rhaglen

Rhaglen astudio un flwyddyn yw Rhaglen y Dyfodol, a ddatblygwyd ar gyfer dysgwyr Lefel 1 a'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddod yn rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth Na Hyfforddiant (NEET).

Mae'r Rhaglen yn galluogi dysgwyr i brofi ystod o feysydd galwedigaethol trwy gynyddu cysylltiad â gwahanol lwybrau ar gyfer camu ymlaen, a hwythau ar yr un pryd yn meithrin cydnerthedd, sgiliau cyflogadwyedd a strategaethau llesiant trwy raglen ddwys o diwtorialau a chymorth.

Bydd y dysgwyr yn cael y cyfle i ddatblygu'r sgiliau sy'n ofynnol i gamu ymlaen i raglen astudio Lefel 2, cyflogaeth neu leoliad gwaith â chymorth.

Prif nodau Rhaglen y Dyfodol yw:

- cynyddu cyfraddau cadw mewn colegau a thywys dysgwyr i ddewis arbenigedd pwnc galwedigaethol yn y flwyddyn academaidd ganlynol; a
- chynyddu cysylltiad â gwahanol lwybrau gyrfaoedd a llwybrau ar gyfer camu ymlaen, meithrin cydnerthedd, gan hefyd ddarparu rhaglen ddwys o diwtorialau a llesiant i leihau i'r eithaf y risg o ymddieithrio a thynnu'n ôl.

## 3. Trosolwg o Ddarparu

Gellir darparu Rhaglen y Dyfodol mewn ffordd debyg i'r Pasbort i Lwyddiant[1] gyda thri bloc astudio 10-12 wythnos. Byddai pob bloc yn darparu sgiliau hanfodol ar gyfer dysgwyr ac yn cael ei danategu gan y *Pum Ffordd i Lesiant*, fel a amlinellir gan y GIG / Mind (Y Sefydliad Economaidd Newydd, 2011)[2].

[1] Mae Pasbort i Lwyddiant yn arfogi pobl ifanc ag ystod o sgiliau a fydd yn eu helpu i aros yn yr ysgol a chael yr addysg, y sgiliau proffesiynol, y parodrwydd ar gyfer cyflogaeth a'r hyder y mae eu hangen arnynt i lwyddo mewn bywyd ac yn y gweithle. Mae'r rhaglen yn targedu pobl ifanc agored i niwed sydd yn yr ysgol ond yn wynebu risg o adael cyn pryd, yn ogystal â'r rhai hynny sydd allan o'r ysgol, yn ddi-waith, neu'n gweithio mewn amgylcheddau peryglus. Un o'r mesurau allweddol o lwyddiant yw i ba raddau y mae pobl ifanc naill ai yn yr ysgol neu'n cael eu cyflogi chwe mis ar ôl cyfranogi yn y rhaglen.
[2] Gweler hefyd y Pum Ffordd i Lesiant.

Gallai dysgwyr astudio un neu bob un o'r blociau. Bydd yr holl waith prosiect yn cael ei danategu gan ddatblygiad sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol.

## 4. Cymhwystra a Gofynion Mynediad ar gyfer Dysgwyr

I fod yn gymwys i gael mynediad i'r rhaglen rhaid i ddysgwr fod yn 16 oed neu drosodd ar 31 Awst, yn union cyn i'r rhaglen ddechrau.

Sylwer bod Medr hefyd yn disgwyl i flaenoriaeth gael ei rhoi, yn y lle cyntaf, i'r dysgwyr hynny sy'n 16 i 18 oed ar y 31 Awst, yn union cyn i'r rhaglen ddechrau[3].

## 5. Cynnwys y Rhaglen

Mae'r blociau astudio fel a ganlyn:

- Bloc 1: Craidd (Ar Eich Marciau) – Ar ddiwedd y bloc o 10 wythnos bydd myfyrwyr yn barod i ddysgu, yn gallu cysylltu â grŵp o bobl a chyflwyno syniadau am yr hyn y mae arnynt eisiau ei gyflawni yn y dyfodol.
- Bloc 2: Sylfaen (Barod) – Ar ddiwedd y 10 wythnos bydd myfyrwyr wedi datblygu sgiliau sy'n benodol i'w cynlluniau ar gyfer y dyfodol.
- Bloc 3: Cychwyn (Ewch!) – Ar ddiwedd y bloc o 10 wythnos bydd myfyrwyr wedi cwblhau lleoliad gwaith o un wythnos o leiaf, wedi arddangos eu sgiliau ac wedi cynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol.

Byddai pob bloc yn meithrin sgiliau ar draws y pum Conglfaen:

- Conglfaen 1: Cysylltu ag Eraill
- Conglfaen 2: Bod yn Gorfforol Egnïol
- Conglfaen 3: Dysgu Sgiliau Newydd
- Conglfaen 4: Rhoi i Eraill
- Conglfaen 5: Talu Sylw i'r Foment Bresennol

### *Lleoliadau Gwaith*

Ar gyfer y lleoliadau gwaith, disgwylir i sefydliadau weithio gyda chyflogwyr i ddarparu profiad gwaith ystyrlon ac ymarferol i ddysgwyr. Gellir cwblhau'r elfen hon o'r rhaglen y tu allan i'r tymor neu yn ystod hanner tymor.

Rhaid i'r Rhaglen gynnwys o leiaf un lleoliad gwaith gyda chyflogwr nad yw'r sefydliad yn rhannol neu'n llwyr berchen arno. Dim ond fel dewis olaf i orffen cronni nifer y diwrnodau sy'n ofynnol y dylid defnyddio Amgylchedd Gwaith Realistig (RWE) yn y coleg. Sylwer y gall defnyddio RWE effeithio'n andwyol ar allu dysgwr i gamu ymlaen, gan bod adborth o'r diwydiant yn dynodi bod lleoliad mewn Amgylchedd Gwaith Go Iawn yn fwy manteisiol i ddysgwyr sy'n awyddus i gamu ymlaen i gyflogaeth neu brentisiaeth.

[3] Ystyrir bod dysgwr yn 18 oed tan ddiwedd y flwyddyn academaidd y mae eu pedwerydd pen-blwydd ar bymtheg yn digwydd ynddi. Mae'r diffiniad hwn yn sicrhau nad yw cyllid ar gyfer dysgwr 16 i 18 oed yn newid yn ystod rhaglen unigolyn os yw'r dysgwr yn troi'n 19 oed yn ystod blwyddyn academaidd.

Gall prosiectau a gyflawnir ar ran cleientiaid / sefydliadau allanol yng ngweithdai'r coleg gyfrif tuag at oriau'r lleoliad gwaith cyn belled â nad ydynt yn yr oriau addysgu wedi eu hamserlennu ar gyfer y dosbarth a bod y cyflogwr sy'n cydlynu'r lleoliad gwaith yn bresennol hefyd. Sylwer hefyd nad yw gweithio ochr yn ochr â thechnegwyr mewnol y coleg i drin, glanhau a chynnal a chadw offer yn cyfrif tuag at y cwota lleoliad gwaith.

Rhaid i sefydliadau sicrhau bod trefniadau yn eu lle i oruchwylio unrhyw leoliadau gwaith; gan gynnwys asesiadau iechyd a diogelwch a risg cyfoes.

Rhaid i sefydliadau sicrhau hefyd bod gan bob dysgwr Gynllun Lleoliad Gwaith, sy'n nodi ei b/phresenoldeb arfaethedig a'r trefniadau sydd ar waith i fonitro'r lleoliad. Mae templed awgrymedig ar gyfer Cynllun Lleoliad Gwaith wedi ei atodi yn Atodiad A.

## 6. Gofynion Cyflwyno Data

Bydd Medr yn defnyddio data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) / y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) i fonitro'r modd y darperir y rhaglen a deilliannau dysgu'r rhaglen ar gyfer Rhaglen y Dyfodol.

Yn unol â'r amodau a nodir yn y *Llythyr Dyfarnu Grant* blynyddol, rhaid i sefydliadau sicrhau bod data'n cael ei gyflwyno yn y fformat cywir ac mewn modd amserol.

Mae Llawlyfr Cymorth i Ddefnyddwyr LLWR[4] a Nodiadau Cwblhau Technegol CYBLD[5] yn nodi'r canllawiau y dylai sefydliadau eu dilyn wrth gyflwyno data ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol.

### *Cod y Rhaglen*

Dylid defnyddio'r cod rhaglen canlynol (LP74) ar gyfer dysgwyr ar Raglen y Dyfodol:
8800F01B Rhaglen y Dyfodol Lefel 1

### *Gwybodaeth Cyllid*

Mae cyfanswm y cofrestriadau ar gyfer y Rhaglen hon wedi eu capio ar 20 ar gyfer pob Sefydliad Addysg Bellach o fewn un flwyddyn academaidd.

## 7. Monitro ac Archwilio

Bydd gan fonitro ac archwilio rôl o ran sicrhau bod y canllawiau'n cael eu rhoi ar waith yn gyson ac i helpu i asesu a yw polisïau, gweithdrefnau a rheolaethau'n ddigonol.

### *Dull Monitro*

Bydd y dull o fonitro'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:
- cydymffurfio â manylebau'r rhaglen; a

---

[4] Gweler Cofnod dysgu gydol oes Cymru (LLWR).
[5] Gweler Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD).

- deilliannau dysgu ar gyfer y rhaglen.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy gyfuniad o fonitro yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn; ymarfer paru data; a phrofion archwilio manwl ar ddysgwyr ar Raglen y Dyfodol.

### *Cydymffurfio â Manyleb y Rhaglen*

Bydd Medr yn defnyddio data LLWR / CYBLD i fonitro'r modd y cydymffurfir â manyleb y rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys monitro setiau data perthnasol y rhaglen a gweithgareddau i wirio bod gofynion darparu'r rhaglen yn cael eu hateb yn llawn.

### *Deilliannau Dysgu*

Mae cyrchfannau dysgwyr yn fesur perfformiad allweddol ar gyfer y rhaglen ac yn hollbwysig i werthuso'r modd y darperir y rhaglen.

Y disgwyliad yw y bydd y mwyafrif o ddysgwyr sy'n cwblhau Rhaglen y Dyfodol yn llwyddiannus yn camu ymlaen i Raglenni Lefel 2 amser llawn, i gyflogaeth neu leoliad gwaith â chymorth.

### *Profion Archwilio*

Yn ychwanegol at y dull o fonitro a nodir uchod, bydd yr holl ddata a ddychwelir gan y sefydliadau Addysg Bellach yn ddarostyngedig i ofynion archwilio diwedd blwyddyn presennol[6]. O fewn hyn, bydd pwyslais arbennig yn cael ei roi yn y *Canllawiau Archwilwyr* i sicrhau bod archwilwyr allanol yn samplu dysgwyr sy'n gwneud Rhaglen y Dyfodol yn briodol.

## 8. Manylion Cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys y Fanyleb Rhaglen hon, cysylltwch â Medr yn y blwch negeseuon e-bost canlynol: Buddsoddiadacmonitro@medr.cymru.

[6] Bydd y gofynion archwilio ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn cael eu cyhoeddi ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

## 9. Atodiadau

### *A. Cofnodi'r Profiad Gwaith*[7]

| Rhaglen y Dyfodol – Cynllun Lleoliad Gwaith | |
|---|---|
| Enw'r Dysgwr: | |
| Cymhwyster/cymwysterau a wneir: | |
| Enw'r Cyflogwr: | |
| Cyfeiriad y Lleoliad Gwaith: | |
| Natur y Busnes: | |
| Enw'r sawl y bydd y dysgwr yn atebol iddynt: | |
| Presenoldeb arfaethedig: | |
| Ymweliadau monitro arfaethedig gan y tiwtor: | |

**Rwy'n cytuno â'r Cynllun Lleoliad Gwaith uchod:**

| | | |
|---|---|---|
| Llofnodwyd gan y Dysgwr:<br>……………………………<br>Enw'r Dysgwr:<br>……….……………………<br>Dyddiad:<br>……………………………… | Llofnodwyd gan y Tiwtor:<br>……………………………<br>Enw'r Tiwtor:<br>……………………………<br>Dyddiad:<br>……………………………… | Llofnodwyd ar ran y Cyflogwr:<br>…………………………...<br>Swydd yn y cwmni:<br>…………………………...<br>Dyddiad:<br>…………………………... |

[7] DS: Dim ond templed a awgrymir ar gyfer y Cynllun Lleoliad Gwaith yw hwn

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**